**Teitl:** **Dirprwy Bennaeth**

**Lleoliad:** **Cymuned Ddysgu Abertyleri**

**Cyfarwyddiaeth:** **Addysg**

**Cyfeirnod/Rhif y Swydd:** **BG12056**

**Cyflog:** **L27-L31 (£90,980 - £100,343 y flwyddyn)**

**Oriau:** **Llawn amser**

**Apwyntiad ar gyfer Tymor yr Hydref (neu mor gynnar â phosibl)**

Mae Cymuned Ddysgu Abertyleri am benodi Dirprwy Bennaeth uchelgeisiol ac ysbrydoledig. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gwneud cyfraniad sylweddol at godi safonau ar draws yr ysgol, gosod disgwyliadau uchel ac ymdrech i gyflawni rhagoriaeth.

Mae'r llywodraethwyr am benodi athro/athrawes ac arweinydd rhagorol sydd â dealltwriaeth a phrofiad manwl o wella'r ysgol.

**Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn bodloni'r meini prawf canlynol:**

- Profiad diweddar o arwain ar lefel dirprwy bennaeth neu bennaeth.
- Arwain arferion gwrth-hiliol ysgol gyfan, i hyrwyddo a dathlu amrywiaeth ar draws cymuned yr ysgol.
- Bod yn amlwg iawn o fewn y gymuned, gan ddatblygu perthnasoedd gwaith cymunedol ac ysgol effeithiol ac integredig.
- Credu ym mhwysigrwydd llesiant cryf a chadarnhaol disgyblion a hyrwyddo gwerthoedd sy'n datblygu llesiant ein disgyblion a'u cariad at ddysgu.
- Bod yn athro rhagorol gyda'r disgwyliadau uchaf ohonoch eich hun ac eraill.
- Bod yn eiriolwr dros hawliau plant.
- Meddu ar ddisgwyliadau uchel ar gyfer addysgu, dysgu, ymddygiad ac agwedd ar draws yr ysgol i sicrhau disgwyliadau uchel a her briodol i bawb.
- Bod â brwdfrydedd dros addysgu a dysgu, gyda dyheadau uchel i bawb.
- Dangos awydd am ddysgu proffesiynol sy'n effeithio ar addysgeg, gan gefnogi twf proffesiynol ar draws ein hysgol
- Meddu ar sgiliau wedi'u profi i fodelu a datblygu addysgu a dysgu o ansawdd uchel ar draws yr ysgol.

- Dangos ymrwymiad cryf i sicrhau darpariaeth a chanlyniadau o'r ansawdd uchaf i blant.
- Arwain trwy esiampl, a meddu ar brofiad a llwyddiant wedi'i brofi, gyda dealltwriaeth a gwybodaeth ymarferol o ddiwygio cymwysterau CA4 a mesurau atebolrwydd.
- Meddu ar ddealltwriaeth dda o Genhadaeth Genedlaethol Cymru a diwygio'r cwricwlwm.
- Bod yn feddyliwr strategol gyda phrofiad arwain wedi'i brofi, sgiliau trefnu, rhyngbersonol a chyfathrebu da.

Mae'r corff llywodraethu yn chwilio am rywun sy'n frwd dros wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant yn ein cymuned. Byddwn yn darparu cefnogaeth dda i'r ymgeisydd llwyddiannus a fydd yn gweithio'n agos gyda'r Pennaeth fel rhan o'r uwch dîm arwain, i sicrhau bod Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri yn cael ei rhedeg yn effeithiol.

**Gallwn gynnig y canlynol i'r ymgeisydd llwyddiannus:**

- Y cyfle i chwarae rhan allweddol wrth lunio dyfodol ein Cymuned Ddysgu 3-16.
- Cydweithwyr gweithgar, ymroddedig gydag uchelgais a disgwyliadau uchel ar gyfer ein plant.
- Plant cyfeillgar, llawn cymhelliant sy'n ymfalchïo yn eu cyflawniadau.
- Y cyfle i ymuno â thîm arwain cryf a chydweithio â holl aelodau cymuned yr ysgol a thu hwnt.

Bydd ymweliadau â'r ysgol yn cael eu trefnu ar ôl llunio rhestr fer.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y swydd hon, cysylltwch â Chadeirydd y Llywodraethwyr: Darryl.Tovey@abertillery3-16.co.uk

Gallwch hefyd ymweld â'n gwefan ar Gymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri | Cymru

Mae Cymuned Ddysgu Abertyleri wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac yn disgwyl i'r holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn.

**Cynhelir camau gwirio cyn cyflogi trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i'r deiliad swydd gwblhau cais am Ddatgeliad o Gofnod Troseddol.**

Mae'r swydd hon yn gofyn am gofrestriad gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) o dan y categori Athro Ysgol a bydd angen i gofrestriad fod yn ei le cyn dechrau yn y rôl. Mae gwybodaeth am sut i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) ar gael ar y wefan ganlynol http://www.ewc.wales/ neu drwy ffonio 02920 460099.

**Dyddiad Cau:** Dydd Gwener 28ain Mehefin am 9.00am.

**Llunio rhestr fer:** Dydd Llun 1af Gorffennaf

**Cyfweliadau:** Dydd Llun 8fed a dydd Mawrth 9fed Gorffennaf